Cydweithfa AI Cymru
Welsh AI Collective



PAPUR BRIFFIO · HYDREF 2026

Yn Barod am AI

Papur briffio tair tudalen i benderfynwyr yng Nghymru a'r DU ar gymorth cyhoeddus i fusnesau bach yng Nghymru fabwysiadu AI

Paratowyd gan Felix Clarke FRSA MBA, Cydweithfa AI Cymru. Crynodeb o'r adroddiad cychwynnol *Yn Barod am AI*, Hydref 2026.

Pam mae hyn yn bwysig nawr

Mae gan Gymru gynllun ar gyfer deallusrwydd artiffisial (AI), Swyddfa AI a dwy Ardal Twf AI. Mae Busnes Cymru yn cynnal digwyddiadau AI am ddim ledled Cymru drwy M-SParc, ac mae cymhorthdal hyfforddiant yn talu tri chwarter cost cyrsiau AI. Mae'r rhain yn gamau cyntaf gwirioneddol.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bylchau. Nid oes gan y Cynllun AI i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025, ei gyllideb, ei dargedau na'i amserlen ei hun, ac mae'n nodi "er mwyn gwireddu'r weledigaeth bydd angen buddsoddi a blaenoriaethu sylweddol". Nid adroddwyd eto bod unrhyw ran o'r pecyn £2.1m a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026 i helpu busnesau bach i fabwysiadu AI wedi'i gwario. Mae disgwyl i gyllideb ddrafft lawn gyntaf y llywodraeth newydd, ar gyfer 2027-28, gael ei chyhoeddi ar 17 Tachwedd 2026, ac mae un o bwyllgorau'r Senedd eisoes wedi gofyn beth fydd ynddi ar gyfer Busnes Cymru, busnesau bach ac AI.

Mae busnesau bach yn ffurfio'r rhan fwyaf o economi Cymru, ond am eu defnydd hwy o AI y gwyddys leiaf. Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r hyn y mae'r dystiolaeth gyhoeddedig yn ei ddangos, er mwyn iddi lywio'r penderfyniadau sydd i ddod.

Ffeithiau allweddol

2c ym mhob £1

O'r £30.1m o arian cyhoeddus a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith AI yng Nghymru ers mis Ebrill 2022, mae tua 2c ym mhob punt (2.3%) wedi mynd at helpu busnesau i fabwysiadu AI. Aeth 82.5% i ymchwil a datblygu, ac aeth 13.4% at ddefnydd cyrff cyhoeddus eu hunain o AI.

99.3%

Busnesau bach a chanolig yw 99.3% o fusnesau Cymru, ac maent yn cyflogi 62.3% o'r bobl sy'n gweithio mewn busnesau yng Nghymru. Microfusnesau yn unig yw 94.6% o'r busnesau.

24.8% o'i gymharu â 34.9%

Yn 2024, roedd 24.8% o'r cwmnïau yng Nghymru a oedd â deg neu fwy o weithwyr ac a oedd yn defnyddio technolegau cynhyrchu digidol yn defnyddio AI, y gyfran isaf o bedair gwlad y DU, o'i gymharu â 34.9% yn Lloegr. Samplau bach yn unig sy'n mesur y cwmnïau lleiaf.

Tua phedair gwaith

Mae Gogledd Iwerddon yn gwario tua £1.43 y pen y flwyddyn ar gymorth AI ymarferol i fusnesau, tua phedair gwaith y £0.35 y mae Cymru wedi'i ymrwymo ar y dehongliad mwyaf ffafriol.

6c

Am bob £1 o arian cyhoeddus a wariodd Cymru ar adeiladu band eang cyflym iawn, gwariodd tua 6c ar helpu busnesau i'w ddefnyddio.

£1.1bn

Os bydd cyfradd mabwysiadu AI yng Nghymru yn dal i fyny â chyfradd y DU erbyn 2030, gallai Cymru ennill tua £1.1bn o allbwn ychwanegol dros y cyfnod 2026 i 2035. Amcangyfrif dangosol yw hwn, nid rhagolwg.

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos

CANFYDDIAD 1

Mae'r Cynllun AI wedi dechrau cael ei gyflawni, ond nid oes ganddo ei gyllideb ei hun.

Mae'r unig arian y mae unrhyw un o gyllidebau Cymru yn ei labelu'n arian AI, sef £2.5m y flwyddyn, ar gyfer y Swyddfa AI a gwasanaethau cyhoeddus. Galwodd un o bwyllgorau'r Senedd ac adolygiadau'r llywodraeth ei hun am gymorth cliriach i gwmnïau bach, a chofnododd y llywodraeth mai "Dim" neu "Eto i'w nodi" oedd y goblygiadau ariannol. Ym mis Hydref 2026 roedd cwmpas y Strategaeth Ddigidol newydd yn dal i gael ei bennu, heb ddyddiad cyhoeddi, ac nid oes dim a gyhoeddwyd hyd yma yn dweud a fydd Busnes Cymru neu gymorth i fabwysiadu AI yn rhan o'r asiantaeth ddatblygu genedlaethol newydd sy'n cael ei chynllunio ar hyn o bryd.

CANFYDDIAD 2

Ychydig o'r arian cyhoeddus ar gyfer AI sydd wedi cyrraedd y cwmnïau lleiaf.

Mae'r arian a ddyfarnwyd ar gyfer mabwysiadu yn dod i tua £2.85 am bob busnes yng Nghymru dros bedair blynedd a hanner. Nid oes unrhyw gynllun, corff cyflawni na swm wedi'i neilltuo ar gyfer cwmnïau bach wedi'i gyhoeddi ar gyfer yr arian i fabwysiadu AI yn lleol, sef hyd at £5m i bob Ardal Twf AI, ac ni soniwyd am yr arian hwnnw yng Nghyllideb y DU ar 28 Hydref 2026. Mae grantiau busnes mewn o leiaf saith ardal cyngor yn eithrio neu'n cyfyngu ar feddalwedd, tanysgrifiadau a hyfforddiant, er bod y rhan fwyaf o offer AI yn cael eu gwerthu fel tanysgrifiadau.

CANFYDDIAD 3

Mae cymdogion Cymru yn mynd ymhellach, ac mae Cymru'n ennill llai na'i chyfran o gyllid y DU.

Mae Gogledd Iwerddon, yr Alban, Iwerddon a Gwlad y Basg yn talu am gymorth arbenigol neu am roi AI ar waith, yn agor eu cynlluniau i gwmnïau bach iawn ac yn mesur y canlyniadau. Mae 3.4% o fusnesau sector preifat y DU yng Nghymru, ond enillodd Cymru 2.0% o arian cystadlaethau AI Innovate UK. Ariannodd Cyllideb y DU ar 28 Hydref 2026 gynlluniau peilot ar gyfer mabwysiadu AI yn lleol yn Lloegr, ac ni chyhoeddwyd dim cyfatebol ar gyfer Cymru.

CANFYDDIAD 4

Cyrhaeddodd rhaglenni cynharach yng Nghymru lawer o gwmnïau bach, ond anaml y dangoswyd enillion parhaol.

Cyrhaeddodd Opportunity Wales bron i 12,000 o gwmnïau bach drwy bartneriaid lleol, a chefnogodd Cyflymu Cymru i Fusnesau 6,537 o gwmnïau, 91% ohonynt yn ficrofusnesau. Yn aml, cyrhaeddwyd y targedau allbwn heb i'r canlyniadau i gwmnïau gael eu dangos, a daeth rhaglenni i ben pan ddaeth eu cyllid i ben.

CANFYDDIAD 5

Ar ardaloedd gwledig, siaradwyr Cymraeg a'r cwmnïau lleiaf y mae risgiau AI yn pwyso drymaf.

Gallai tua 45,000 o swyddi gael eu disodli erbyn 2035 ar y llwybr presennol. Mae'r ardaloedd cyngor sydd â'r ddarpariaeth band eang ffibr llawn isaf yn cynnwys y rhai sydd â'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg, ac ni chanfuwyd unrhyw astudiaeth o'r ffordd y mae busnesau bach Cymraeg eu hiaith yn defnyddio offer AI.

CANFYDDIAD 6

Gallai cau'r bwlch mabwysiadu fod yn werth tua £1.1bn dros ddeng mlynedd.

Mae'r enillion yn codi i tua £326m y flwyddyn erbyn 2035, a byddai cwmnïau bach a chanolig yn cael tua 37% o'r holl enillion o AI. Mae'r amcangyfrif yn cymhwyso dull y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol at allbwn Cymru, ac mae pob cam wedi'i nodi yn yr adroddiad llawn.

Mae gan y cynllun berchennog a nod. Bellach, mae un gweinidog yn gyfrifol am bolisi AI ac am Fusnes Cymru. Yr hyn nad oes gan y cynllun eto yw cyllideb, na llwybr wedi'i gynllunio ar gyfer y cwmnïau lleiaf.

Materion i'w hystyried

Mae'r canfyddiadau yn codi pum cwestiwn i Lywodraeth Cymru, i Fusnes Cymru, i'r cynghorau ac i Lywodraeth y DU. Fe'u cynigir i'w trafod yn hytrach nag fel argymhellion.

MATER 1

A ddylai'r Cynllun AI gael cyllideb amlflwyddyn benodol ar gyfer mabwysiadu AI gan fusnesau bach?

Cyllideb ddrafft 2027-28 yw'r cyfle nesaf. I roi syniad o'r raddfa, byddai cyfateb i gyfradd wariant y pen yng Ngogledd Iwerddon yn costio tua £4.5m y flwyddyn, sef tua 20% o gyllideb graidd Busnes Cymru o £22.5m. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd ei chyllid o ddydd i ddydd, hyd yn oed ar ôl Cyllideb y DU, 0.5% yn is mewn termau real y flwyddyn nesaf.

MATER 2

Sut y gallai cymorth gyrraedd microfusnesau ac unig fasnachwyr?

Argymhellodd yr Adolygiad o gymorth i fusnesau lwybr clir i gwmnïau bach fabwysiadu AI. Nid oes unrhyw ran o'r cynnig presennol wedi'i chynllunio o amgylch y cwmnïau lleiaf, ond mae Iwerddon a Gwlad y Basg yn cynnig llwybrau sy'n agored i gwmnïau bach iawn a rhai pobl hunangyflogedig.

MATER 3

I ba raddau y gallai cymorth gael ei arwain o Gymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg?

Y rhaglenni blaenorol a ddarparwyd drwy bartneriaid lleol a gyrhaeddodd y nifer fwyaf o gwmnïau. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynghori y dylid profi offer AI yn Gymraeg cyn eu defnyddio.

MATER 4

A ddylai rheolau grantiau'r cynghorau ganiatáu meddalwedd, tanysgrifiadau a hyfforddiant AI?

Ni fyddai angen arian newydd ar gyfer hyn, ond byddai angen i'r rheolau ddiogelu rhag talu am danysgrifiadau y byddai cwmnïau wedi'u prynu beth bynnag.

MATER 5

Sut y bydd arian yr Ardaloedd Twf AI ar gyfer mabwysiadu lleol yn cyrraedd cwmnïau bach lleol?

Nid oedd unrhyw gynllun, corff cyflawni na swm wedi'i neilltuo ar gyfer cwmnïau bach wedi'i gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref 2026, ac ni soniwyd am yr arian yng Nghyllideb y DU ar 28 Hydref 2026, felly ni all busnesau weld eto beth fydd ar gael iddynt.

Beth sy'n digwydd nesaf

Adroddiad cychwynnol yw hwn, wedi'i lunio o ffynonellau cyhoeddedig. Bydd angen i gam nesaf y gwaith glywed yn uniongyrchol gan fusnesau bach yng Nghymru am y ffordd y maent yn defnyddio AI a'r help sydd ei angen arnynt, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a cheisio ffigurau nas cyhoeddwyd ar wariant ac ar y nifer sy'n manteisio. Croesewir tystiolaeth, cywiriadau a chynigion i gyfrannu.

Felix Clarke FRSA MBA, Cydweithfa AI Cymru

Mae'r adroddiad llawn, *Yn Barod am AI*, yn nodi pob ffigur gyda'i ffynhonnell a'r dull sy'n sail i'r amcangyfrif. I drafod y canfyddiadau, neu i drefnu sesiwn briffio i weinidogion, eu cynghorwyr neu swyddogion gyda grŵp bach o berchnogion busnesau yng Nghymru, trefnwch alwad yn **calendly.com/felixclarke/chat-with-felix-clarke**.

Cydweithfa AI Cymru
Welsh AI Collective

Mae Cydweithfa AI Cymru yn grŵp o fusnesau bach yng Nghymru sy'n cydweithio er mwyn sicrhau mynediad teg at adnoddau'r llywodraeth ar gyfer mabwysiadu AI, ac er mwyn hyrwyddo'r gwaith o gyflwyno addysg, cymorth a grantiau sy'n helpu busnesau bach Cymru i ddefnyddio AI.

Mae'r ffigurau fel y'u cyhoeddwyd ar 29 Hydref 2026. Lle mae'r papur briffio hwn yn dweud nad yw rhywbeth yn bodoli, yr hyn a olygir yw nad oedd modd dod o hyd iddo mewn ffynonellau cyhoeddedig.